

## Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Ymchwiliad craffu – Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru

Ymateb: Bwrdd yr Iaith Gymraeg



29 Mai 2009

Stefan Sanchez  
Clerc  
Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CAERDYDD  
CF99 1NA

Annwyl Mr Sanchez,

### Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i Gyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru

1. Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymchwiliad uchod drwy gyflwyno tystiolaeth ynghylch profiadau plant Cymru yn yr ystâd ddiogel. Rydym yn croesawu'r ymchwiliad ac mae'r cyngor a gynigir isod yn seiliedig ar ein cylch gorchwyl o dan Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

#### **Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

Rhan 1

Adran 3. – (2)...bydd y Bwrdd –

- (a) yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar faterion ynglŷn â'r iaith Gymraeg;
  - (b) yn cynghori personau sy'n ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus ar y ffyrdd o weithredu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal;
  - (c) yn cynghori'r rheiny a phersonau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu hymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru.
2. Nodir ein hargymhellion fel a ganlyn. Amlinellir y sail a'r cefndir iddynt yng ngweddill y ddogfen hon.

**Gosod polisi ar gyfer sicrhau dewis iaith i blant a phobl Ifanc o Gymru o fewn yr ystâd ddiogel, a gweithredu'n unol â'r polisi hwnnw**

- Wrth ddatblygu ac adolygu'r gwasanaethau a gynigir i droseddwyr Ifanc o Gymru o fewn yr ystâd ddiogel dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid weithredu'n unol â'i gynllun iaith Gymraeg ac adrodd yn gyson ar gynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg.
- Dylid sicrhau bod yr holl ddarpariaeth o wasanaethau a gynigir i droseddwyr Ifanc o Gymru, a gynllunnir ac a ddarperir yn unol â Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan, yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo cyflawniad a datblygiad siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd. Bydd hynny'n ddibynnol ar gynnig gwasanaethau Cymraeg a Saesneg cyfartal, gan osgoi allgau rhai personau oherwydd diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Er mwyn cyflawni amcanion 'Cymru'n Un' o ran cyfiawnder ieuentid, ac er mwyn osgoi gosod unrhyw berson dan anfantais ar sail iaith, dylid sicrhau darpariaeth o wasanaethau Cymraeg a Saesneg i droseddwyr ifanc sydd o safon gyfartal ac sydd yr un mor hygyrch yn y ddwy iaith, o fewn a thu allan i'r ystâd ddiogel.
- Dylid sicrhau, o fewn unrhyw gydweithio rhyngasiantaethol i ddatblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau sydd ar gael i droseddwyr ifanc o Gymru, ystyriaeth briodol i anghenion ieithyddol troseddwyr.

### **Y ddarpariaeth Gymraeg gyfredol o fewn yr ystâd ddiogel**

- Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid fonitro'n gyson digonolrwydd sgiliau iaith Gymraeg staff y manau diogel ble cedwir troseddwyr ifanc o Gymru ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg.
- Dylid cynllunio o fewn unrhyw fannau diogel yng Nghymru a Lloegr ble cedwir troseddwyr ifanc o Gymru, ar gyfer datblygu gweithlu sydd â'r sgiliau iaith Gymraeg priodol i gynnig cyfleoedd i droseddwyr ddefnyddio'u dewis iaith. Heb wneud hynny ni fydd modd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg, all arwain at allgau ar sail iaith.
- Argymhellwn y dylai'r sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu addysg a hyfforddiant o fewn y manau diogel ble cedwir troseddwyr ifanc o Gymru ddatblygu rhaglen i wella'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael, a hynny cyn gynted â phosib.
- Argymhellwn y dylid adolygu cynnydd o ran argymhelliad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid yng nghyswllt y cyngor ac arweiniad a roddir ar yrfaeodda chynllunio i wella ble fo angen.
- Dylid sicrhau bod cyflenwad digonol o ddeunyddiau Cymraeg, megis llyfrau, papurau newydd, DVDs, rhaglenni teledu ayyb, ar gael yn y

mannau diogel hynny ble cedwir troseddwy'r ifanc o Gymru. Dylid sicrhau eu bod yr un mor rhwydd eu cael â'r deunyddiau Saesneg, ac ni ddylid disgwyl i unigolion wneud cais amdanynt.

### **Cynllunio ar gyfer gwella'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn yr ystâd ddiogel**

- Dylid sefydlu polisi clir a meini prawf priodol er mwyn sicrhau bod dewis iaith troseddwy'r ifanc yn ystyriaeth amlwg wrth benderfynu ar fan diogel i'w cadw, pan fo angen gwneud hynny.
- Argymhellwn y dylai'r holl asiantaethau sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i droseddwy'r ifanc o Gymru weithredu trefniadau effeithiol ar gyfer sefydlu a chofnodi dewis iaith unigolion. Bydd hynny'n golygu sefydlu prosesau cyson ar gyfer cofnodi dewis iaith a sicrhau ymwybyddiaeth staff o'r angen i wneud hynny.

### **Adolygu'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer plant o Gymru o fewn yr ystâd ddiogel**

- Dylid gosod amodau a safonau ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg o fewn contractau'r sefydliadau diogel sy'n derbyn troseddwy'r ifanc o Gymru. Dylid prif ffrydio'r Gymraeg i drefniadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer monitro'r sefydliadau hynny ac i brosesau gwella dilynol, er mwyn sicrhau bod troseddwy'r ifanc Cymraeg eu hiaith yn derbyn yr un safon o wasanaeth, a'r un cyfleoedd i gyflawni a datblygu, a throseddwy'r di-Gymraeg.

### **Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru**

- Argymhellwn y dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid osod polisi clir ar y safon o wasanaethau Cymraeg i'w ddarparu gan y Timau Troseddu Ieuenctid yng Nghymru, yn unol â'i swyddogaeth o osod "...safonau cenedlaethol y gall weld yn dda eu cyflwyno ar gyfer y system cyfiawnder Ieuenctid".<sup>1</sup>
- Dylai unrhyw sefydliad sy'n cynnig cymorth ariannol i'r Timau Troseddu Ieuenctid yng Nghymru gynnwys o fewn eu cytundebau â hwy amodau priodol i gynnig darpariaeth o wasanaethau Cymraeg a Saesneg cyfartal. Dylid monitro cydymffurfiaeth â'r amodau hynny fel rhan o drefniadau monitro arferol y cytundebau hynny.

<sup>1</sup> Cynllun iaith Gymraeg Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2007) – adran 1.1

- Argymhellwn y dylid ystyried cynnal ymchwiliad o'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer troseddwy'r ifanc yng Nghymru nad ydynt wedi eu cadw o fewn yr ystâd ddiogel, yn sgil diffyg gwybodaeth gyflawn am safon y ddarpariaeth gyfredol. Dylid prif ffrydio'r Gymraeg i drefniadau monitro Timau Troseddu leuenctid y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyson ar gael am safon eu darpariaeth Gymraeg.
  - Dylid ystyried arolygu safon darpariaeth Gymraeg y Timau Troseddu leuenctid yng Nghymru drwy'r rhaglen gyd arolygu sy'n bodoli.
3. Mae darparu gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru'n unol â dewis iaith derbynwyr gwasanaethau yn fater o weinyddu cyfiawnder teg ac effeithiol. Dylid ystyried nad yw'n bosib darparu gwasanaethau o safon uchel na chyfiawnder teg i droseddwy'r ifanc o Gymru oni wneir hynny yn newis iaith y troseddwr. Gall methiant i roi cyfle i droseddwy'r ifanc o Gymru fynegi eu hunain a chyfathrebu ag eraill yn eu dewis iaith amharu ar unrhyw ymdrechion i adsefydlu'r troseddwy'r hynny ac i osgoi aildroseddu. Fel nodir o fewn Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan, a luniwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid (BCI)
- “Mae darparu gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor dwyieithog ar bob cam o gysylltiad person ifanc â'r system cyfiawnder troseddol yn hanfodol.”*
4. Credwn fod yr ymchwiliad yma'n cynnig cyfle i adolygu'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael i droseddwy'r ifanc o Gymru o fewn yr ystâd ddiogel, ac i ystyried a chytuno camau i wella'r ddarpariaeth ble fo angen. Mae hefyd angen adolygu'r ddarpariaeth Gymraeg ehangach sydd ar gael i droseddwy'r ifanc o Gymru, tu allan i'r ystâd ddiogel.

### **Y Cyd-destun polisi**

5. Sefydlwyd yr egwyddor yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 *“wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal”*<sup>2</sup>. Cafodd y BCI ei enwi dan Adran 6(1)(o) y Ddeddf yn Awst 2001 fel corff y mae gofyn iddo baratoi cynllun iaith Gymraeg. O ganlyniad paratowyd cynllun iaith gan y Bwrdd a gafodd ei gymeradwyo ar 1 Mawrth 2007.

<sup>2</sup> Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

6. Mae cynllun iaith Gymraeg y BCI yn cynnwys ymrwymiad i weithredu'n unol â'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru ac i aelodau'r cyhoedd o Gymru. Pwysleisir yn y cynllun hwnnw

*"(b)wysigrwydd rhoi ystyriaeth, yn ystod y cam cynllunio, i'r angen i gynnig neu ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg."*<sup>3</sup>

**Wrth ddatblygu ac adolygu'r gwasanaethau a gynigir i droseddwr Ifanc o Gymru o fewn yr ystâd ddiogel dylai'r BCI weithredu'n unol â'i gynllun iaith Gymraeg ac adrodd yn gyson ar gynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg.**

7. Mae Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan, a luniwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, yn cydnabod pwysigrwydd cynnig dewis iaith i droseddwr ifanc. Nodir o fewn y strategaeth honno

*"Rhaid cymryd camau gweithredu i nodi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu a darparu rhaglenni priodol i ailgynnwys a dargyfeirio'r plant a phobl ifanc hyn oddi wrth droseddu. Mae hyn yn galw am..... (d)datblygu darpariaeth **brïodol** ar gyfer pob person ifanc yn y system cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau y gallant gael mynediad i'w hawl sylfaenol cyffredinol i gael cymorth a gwasanaethau<sup>5</sup>."*

Rhan amlwg o sicrhau darpariaeth brïodol yw sicrhau darpariaeth yn newis iaith personau ifanc o fewn y system cyfiawnder troseddol. Â'r Strategaeth ymlaen i egluro pwysigrwydd parchu

*"....hawl pob person ifanc i gael amrywiaeth o wasanaethau yn eu dewis iaith, wedi'u cynllunio i hyrwyddo eu cyflawniad a'u datblygiad fel unigolion<sup>6</sup>."*

**Dylid sicrhau bod yr holl ddarpariaeth o wasanaethau a gynigir i droseddwr Ifanc o Gymru, a gynllunnir ac a ddarperir yn unol â Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan, yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo cyflawniad a datblygiad siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd. Bydd hynny'n ddibynnol ar gynnig gwasanaethau Cymraeg a Saesneg cyfartal, gan osgoi allgau rhai personau drwy ddiffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.**

<sup>3</sup> Cynllun iaith Gymraeg Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (2007) – adran 2.2

<sup>4</sup> Pwyslais yr awdur.

<sup>5</sup> Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan – Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (2004) – Tudalen 2

<sup>6</sup> Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan – Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (2004) – Tudalen 3

8. Mae 'Cymru'n Un', rhaglen flaengar Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer llywodraethu Cymru'n datgan

*"Rydym am weld system cyfiawnder ieuentid a throreddol sy'n deg, system y mae gan bobl Cymru bob hyder ynddi."*

**Er mwyn cyflawni hyn, ac osgoi gosod unrhyw berson dan anfantais ar sail iaith, dylid sicrhau darpariaeth o wasanaethau Gymraeg a Saesneg i droseddwyr ifanc sydd o safon gyfartal ac sydd yr un mor hygyrch yn y ddwy iaith, o fewn a thu allan i'r ystâd ddiogel.**

Awgrymir mai un dull o sicrhau bod gan Gymry Cymraeg hyder yn y system fyddai cyhoeddi gwybodaeth gyson am safon y ddarpariaeth Gymraeg, yn sgil gwaith adolygu.

9. Eglurir o fewn cynllun iaith Gymraeg y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ei fod yn cydweithio'n agos â'r BCI i ddatblygu'r system cyfiawnder troseddol. Nodir hefyd

*"Wrth weithredu'r egwyddor o sicrhau cydraddoldeb i'r Saesneg a'r Gymraeg fel ei gilydd drwy ein gwaith i gyd, byddwn yn...darparu gwasanaethau a darpariaeth ddwyieithog lle bynnag y byddent yn addas a sicrhau bod ein gwaith i gyd yn cymryd materion ieithyddol a diwylliannol i ystyriaeth"<sup>7</sup>.*

**Dylid sicrhau, o fewn unrhyw gydweithio rhyngasiantaethol i ddatblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau sydd ar gael i droseddwyr ifanc o Gymru, ystyriaeth briodol i anghenion ieithyddol troseddwyr.**

### **Y ddarpariaeth Gymraeg gyfredol o fewn yr ystâd ddiogel**

10. Dangosir o fewn atodiad 1 ffynonellau gwybodaeth ynghylch safon y ddarpariaeth Gymraeg o fewn y system cyfiawnder ieuentid ar hyn o bryd. Ar y cyfan, adroddir mai anghyson iawn yw'r cyfleoedd sydd ar gael i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg o fewn yr ystâd ddiogel.

#### **Staffio**

11. Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am allu ieithyddol staff y manau diogel hynny ble cedwir troseddwyr ifanc o Gymru.

**Dylai'r BCI fonitro'n gyson digonolrwydd sgiliau iaith Gymraeg staff y manau diogel ble cedwir troseddwyr ifanc o Gymru ar gyfer darparu gwasanaethau Gymraeg.**

<sup>7</sup> Cynllun iaith Gymraeg Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid Cymru a Lloegr (2007)

12. O'r manau diogel hynny a archwiliwyd gan y BCI yn 2007 nid oedd yr un ohonynt yn mynnu bod y gallu i gyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg yn faen prawf hanfodol ar gyfer swyddi. Un yn unig oedd yn datgan o fewn hysbysebion swyddi bo sgiliau Cymraeg yn fanteisiol<sup>8</sup>.

**Dylid cynllunio o fewn unrhyw fannau diogel yng Nghymru a Lloegr ble cedwir troseddwyr ifanc o Gymru, ar gyfer datblygu gweithlu sydd â'r sgiliau iaith Gymraeg priodol i gynnig cyfleoedd i droseddwyr ddefnyddio'u dewis iaith. Heb wneud hynny ni fydd modd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg, all arwain at allgau ar sail iaith.**

#### Addysg

13. Roedd gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan y BCI yn 2007 yn asesu gallu'r manau diogel hynny ble cedwir plant a phobl Ifanc o Gymru i gynnig gwersi Cymraeg ac i gynnig addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Canfuwyd na fedrai 85.7% o'r manau diogel hynny gynnig gwersi Cymraeg ac ni fedrai 96.4% ohonynt gynnig addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg<sup>9</sup>.
14. Eglurodd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin sut y gall diffyg cyfleoedd i dderbyn addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg effeithio ar blant a phobl ifanc

*"...holding these children and young people in custodial facilities at such long distances from their homes and families is not conducive to effective education, training and rehabilitation. This is particularly true for Welsh-speaking juvenile offenders who serve their sentences in England and who are doubly disadvantaged by being denied the opportunity to learn in their first language".<sup>10</sup>*

**Argymhellwn y dylai'r sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu addysg a hyfforddiant o fewn y manau diogel ble cedwir troseddwyr ifanc o Gymru ddatblygu rhaglen i wella'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael, a hynny cyn gynted â phosib.**

#### Cynqor ac arweiniad ar yrfaedd

15. Mae adroddiad y BCI 'Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau Cymraeg yn y manau diogel' yn nodi diffyg argaeledd gwasanaeth cynghori ar yrfaedd

<sup>8</sup> Adroddiad Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 'Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau Cymraeg yn y manau diogel', M Rooney (2007) – Adran 62

<sup>9</sup> Adroddiad Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 'Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau Cymraeg yn y manau diogel', M Rooney (2007) – Adran 67

<sup>10</sup> Adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin 'Welsh Prisoners in the Prisons Estate' (2007) – adran 161

priodol ar gyfer troseddwr ifanc o Gymru sydd wedi eu cadw mewn manau diogel yn Lloegr. Eglurir y gall diffyg gwasanaeth o'r fath arwain at broblemau wrth geisio ailsefydlu pobl ifanc wedi iddynt gael eu rhyddhau. Mae hyn yn broblem sy'n effeithio ar droseddwr ifanc Cymraeg eu hiaith a di-Gymraeg wrth gwrs. Nodir o fewn yr adroddiad hwnnw

*“Dylai'r YJB (Youth Justice Board), y Timau Troseddu Ieuentid a LICC (Llywodraeth Cynulliad Cymru) ystyried y cyngor a'r arweiniad ar yrfaedd a gynigir i bobl ifanc o Gymru sy'n cael ei cadw mewn dalfeydd er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yn cael gwasanaeth cyfartal, a thrwy hynny gynyddu'r posibilrwydd y bydd y broses o'u hailsefydlu'n un llwyddiannus.”<sup>11</sup>*

**Argymhellwn y dylid adolygu cynnydd o ran argymhelliad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid yng nghyswllt y cyngor ac arweiniad a roddir ar yrfaedd a chynllunio i wella ble fo angen.**

#### Deunyddiau

Nodwyd yn adroddiad y BCI ddiffyg mynediad difrifol at ddeunyddiau megis llyfrau, papurau newydd, DVDs, posteri a theledu Cymraeg ayyb, o fewn manau diogel ble cedwir troseddwr ifanc o Gymru. O'r troseddwr ifanc a holwyd, 25% yn unig oedd wedi derbyn llyfrau darllen Cymraeg, ac nid oeddynt wedi derbyn unrhyw ddeunyddiau Cymraeg eraill.<sup>12</sup> 1. Roedd canran isel o'r manau diogel eu hunain yn honni bod deunyddiau Cymraeg ar gael. Lle fo deunyddiau Cymraeg ar gael yn aml nid oedd y bobl ifanc yn gwybod amdanynt, neu doedd neb wedi gofyn amdanynt.

**Dylid sicrhau bod cyflenwad digonol o ddeunyddiau Cymraeg, megis llyfrau, papurau newydd, DVDs, rhaglenni teledu ayyb, ar gael yn y manau diogel hynny ble cedwir troseddwr ifanc o Gymru. Dylid sicrhau eu bod yr un mor rhydd eu cael â'r deunyddiau Saesneg, ac ni ddylid disgwyl i unigolion wneud cais amdanynt.**

### **Cynllunio ar gyfer gwella'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn yr ystâd ddiogel**

#### Argaeledd llefydd yng Nghymru o fewn yr ystâd ddiogel

16. Wrth gyhoeddi canfyddiadau ei ymchwiliad i garcharorion Cymreig o fewn yr Ystâd Carchardai, dywed Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin

<sup>11</sup> Adroddiad Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid 'Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau Cymraeg yn y manau diogel', M Rooney (2007) – Adran 61

<sup>12</sup> Adroddiad Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid 'Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau Cymraeg yn y manau diogel', M Rooney (2007) – Atodiad 1

*“The lack of Welsh language facilities in prisons where Welsh prisoners are held is a very real problem for many, particularly those from North and West Wales. A number of witnesses expressed concern at the lack of Welsh language facilities experienced by Welsh speaking prisoners serving their sentences in England, and by **juveniles in particular**”<sup>13</sup>. We heard evidence that Welsh speakers were being prevented from speaking Welsh on the grounds that it represented a “security issue”, which is plainly nonsensical and unacceptable.”<sup>14</sup>*

Âr adroddiad ymlaen i nodi

*“There are serious concerns around the welfare of Welsh-speaking juvenile offenders in English institutions. Carol Moore of the North Wales Probation Service told us: “The dislocation experienced by young offenders sentenced into custody can be significantly increased if they are first language Welsh speakers.”<sup>15</sup>*

Dengys gwaith ymchwil y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid bod 60.7%<sup>16</sup> 1. O bobl ifanc o Gymru a gedwir o fewn manau diogel wedi eu lleoli mewn sefydliadau yn Lloegr. Un o brif amcanion y Strategaeth Troseddwy Ifanc Cymru Gyfan yw atal aildroseddu drwy roi cyfle i droseddwy ifanc gyflawni a datblygu. Gall gyrru pobl ifanc o Gymru i fannau diogel ymhell o'u cartrefi a thu allan i Gymru leihau'r tebygrwydd o fedru defnyddio'r Gymraeg. Felly, yn ogystal â'r teimlad o afleoliad sy'n deillio o fod ymhell o gartref, gall unigolion deimlo eu bod wedi eu heithrio rhag cyfleoedd i gyflawni a datblygu yn eu dewis iaith. Mae'n bosib y byddai unrhyw ymdrechion i atal aildroseddu ymysg yr ifanc o Gymru yn dioddef yn sgil y diffygion hyn.

**Dylid sefydlu polisi clir a meini prawf priodol er mwyn sicrhau bod dewis iaith troseddwy ifanc yn ystyriaeth amlwg wrth benderfynu ar fan diogel i'w cadw, pan fo angen gwneud hynny.**

Sefydlu a chofnodi dewis iaith troseddwy, a chynllunio gwasanaethau'n unol â'r dewis hwnnw

## 17. Dywed adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig

*“.....the Youth Justice Board was unable to tell us how many Welsh-speaking*

<sup>13</sup> Pwyslais yr awdur

<sup>14</sup> Adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin 'Welsh Prisoners in the Prisons Estate' (2007) – adran 124

<sup>15</sup> Adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin 'Welsh Prisoners in the Prisons Estate' (2007) – adran 126

<sup>16</sup> Adroddiad Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 'Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau Cymraeg yn y manau diogel', M Rooney (2007) – Adran 28

*juveniles are held in the secure estate”.*<sup>17</sup>

Ers cyhoeddi'r adroddiad hwn mae'r BCI wedi cynnal gwaith ymchwil manwl i drefniadau ar gyfer sefydlu a chofnodi dewis iaith unigolion a gedwir yn yr ystâd ddiogel. Dengys canfyddiadau'r gwaith hwnnw nad oes gan ddarparwyr gwasanaethau cyfiawnder ieuencid broses effeithiol ar gyfer cofnodi dewis iaith yn gyson ac ar gyfer rhannu'r wybodaeth honno. Mae sefydlu, cofnodi a defnyddio gwybodaeth am ddewis iaith unigolion yn rhagofyniad ar gyfer cynnig gwasanaethau o safon sy'n cwrdd ag anghenion unigolion o Gymru. Yr un mor bwysig yw holi am ddewis iaith unigolion mewn ffordd groesawgar a diduedd, er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n teimlo'n fregus neu dan fygythiad oherwydd eu sefyllfa, yn teimlo'n hyderus i ddatgan dewis iaith.

**Argymhellwn y dylai'r holl asiantaethau sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i droseddwr ifanc o Gymru weithredu trefniadau effeithiol ar gyfer sefydlu a chofnodi dewis iaith unigolion. Bydd hynny'n golygu sefydlu prosesau cyson ar gyfer cofnodi dewis iaith a sicrhau ymwybyddiaeth staff o'r angen i wneud hynny.**

### **Adolygu darpariaeth Gymraeg yr ystâd ddiogel**

18. Ar hyn o bryd, mae'r BCI yn monitro perfformiad y manau diogel drwy'r Fframwaith Monitro Cyfundrefnau Effeithiol. Caiff perfformiad pob sefydliad diogel ei fonitro gan un o fonitoriaid perfformiad y BCI, sy'n gweithio gyda'r sefydliad i sicrhau ei fod yn bodloni safonau ac yn cydymffurfio â'i gontract. Gall y monitoriaid gynnig cymorth i wella perfformiad hefyd. Ni roddir ystyriaeth amlwg i'r angen i arolygu safon darpariaeth Gymraeg y sefydliadau hynny o fewn dogfennaeth gyhoeddus am y gwaith monitro hwn.

**Dylid gosod amodau a safonau ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg o fewn contractau'r sefydliadau diogel sy'n derbyn troseddwr ifanc o Gymru. Dylid prif ffrydio'r Gymraeg i drefniadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer monitro'r sefydliadau hynny ac i brosesau gwella dilynol, er mwyn sicrhau bod troseddwr ifanc Cymraeg eu hiaith yn derbyn yr un safon o wasanaeth, a'r un cyfleoedd i gyflawni a datblygu, a throseddwr di Gymraeg.**

### **Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru**

19. Trafodir uchod gan fwyaf y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael i droseddwr ifanc o Gymru o fewn yr ystâd ddiogel, gan mai dyna ffocws yr ymchwiliad

<sup>17</sup> Adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin 'Welsh Prisoners in the Prisons Estate' (2007) – adran 127

hwn. Mae sawl adroddiad a gyhoeddwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn cyfeirio at ddiffygion o fewn gwasanaethau a ddarperir i droseddwr ifanc o Gymru nad ydynt wedi eu cadw o fewn yr ystâd ddiogel. Er enghraifft, mae'r adroddiad 'Y ddarpariaeth o ran dewis iaith yn Sector Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru', a baratowyd gan Gwmni Iaith ar ran Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, yn amlgu anghysonderau sylweddol o fewn darpariaeth Gymraeg Timau Troseddu Ieuentid Gogledd Cymru. Er enghraifft, nodir nad yw lefelau ymwybyddiaeth o faterion iaith yn uchel o fewn y timoedd, ac awgrymir bo gallu'r timoedd i ddarparu gwasanaethau Gymraeg yn amrywio'n fawr.

20. Nid oes rheidrwydd ar fwyafrif y Timau Troseddu Ieuentid yng Nghymru i gynllunio darpariaeth o wasanaethau Gymraeg drwy baratoi cynlluniau iaith Gymraeg, dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae gofyn i Dimau Troseddu Ieuentid Cymru, dan gymalau partneriaeth cynlluniau iaith cyrff fel awdurdodau lleol a heddluoedd sy'n bartneriaid o fewn y timau, weithredu'n unol â'r cynlluniau iaith hynny. Serch hynny, dengys adroddiad Cwmni Iaith ddiffyg ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr Timau Troseddu Ieuentid Gogledd Cymru o bolisi iaith i'w dilyn.

**Argymhellwn y dylai'r BCI osod polisi clir ar safon gwasanaethau Gymraeg i'w darparu gan y Timau Troseddu Ieuentid yng Nghymru**, yn unol â'i swyddogaeth o osod "...safonau cenedlaethol y gall weld yn dda eu cyflwyno ar gyfer y system cyfiawnder ieuentid".<sup>18</sup>

**Dylai unrhyw sefydliad sy'n cynnig cymorth ariannol i'r Timau Troseddu Ieuentid yng Nghymru gynnwys o fewn eu cytundebau â hwy amodau priodol i gynnig darpariaeth o wasanaethau Gymraeg a Saesneg cyfartal.** Dylid monitro cydymffurfiaeth â'r amodau hynny fel rhan o drefniadau monitro arferol y cytundebau hynny.

**Argymhellwn y dylid ystyried cynnal ymchwiliad o'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer troseddwr ifanc yng Nghymru nad ydynt wedi eu cadw o fewn yr ystâd ddiogel**, yn sgil diffyg gwybodaeth gyflawn am safon y ddarpariaeth gyfredol. Dylid prif ffrydio'r Gymraeg i drefniadau monitro Timau Troseddu Ieuentid y BCI, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth cyson ar gael am safon eu darpariaeth Gymraeg.

21. Mae trefn gyd arolygu o waith y Timau Troseddu Ieuentid yng Nghymru yn bodoli ac arweinir y rhaglen arolygu honno gan Arolygiaeth Prawf EM, gyda chyfranogiad gan 7 o arolygwr eraill sef; Estyn; Y Comisiwn Gofal Iechyd; Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru; Arolygiaeth Cwnstablfaeth EM; Arolygiaeth Carchardai EM; Y Swyddfa Safonau Addysg ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r rhaglen hon wedi arolygu

<sup>18</sup> Cynllun iaith Gymraeg Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid (2007) – adran 1.1

safonau gwaith bob un o'r 18 Tîm Troseddu Ieuenctid yng Nghymru dros gyfnod o 5 mlynedd ers canol 2003.

**Dylid ystyried arolygu safon darpariaeth Gymraeg y Timau Troseddu Ieuenctid yng Nghymru drwy'r rhaglen gyd arolygu sy'n bodoli.**

## **Casgliad**

22. Nodir o fewn Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr

*"Mae darparu gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor dwyieithog ar bob cam o gysylltiad person ifanc â'r system cyfiawnder troseddol yn hanfodol."*<sup>19</sup>

Cynigir uchod dystiolaeth o sawl ffynhonnell sy'n awgrymu mai anghyson iawn yw'r cyfleoedd i droseddwy'r ifanc o Gymru ddefnyddio'r Gymraeg o fewn yr ystâd ddiogel ar hyn o bryd. Yn wir gwelir dystiolaeth o ddiffyg sylfaenol yn y ddarpariaeth Gymraeg mewn ambell rhan o'r system. Ymdrechir uchod i ddangos sut gall y diffygion hyn lesteirio cyflawniad amcanion Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan, gan gynnwys y brif amcan o leihau ail droseddu. Cynigiwn argymhellion am sut i sicrhau system gyfiawnder ieuenctid sy'n deg i bawb yng Nghymru, beth bynnag fo'u dewis iaith, er mwyn rhoi cyfle teg i bob troseddwr ifanc o Gymru gyflawni a datblygu, sy'n hanfodol er mwyn atal aildroseddu.

Diolch am eich sylw i'r dystiolaeth yma. Bydd cynrychiolydd o'r Bwrdd ar gael i gynnig dystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor pe dymunir hynny.

Yn gywir,

**Emma Smith**

*Uned Llywodraeth Ganol a Chyfiawnder*

<sup>19</sup> Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan – Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (2004) – Tudalen 5

## Atodiad 1

### Tystiolaeth bellach

Ceir tystiolaeth bellach am ddefnydd o'r Gymraeg o fewn y system cyfiawnder ieuencid o fewn y dogfennau canlynol:-

- House of Commons, Welsh Affairs Committee, Welsh Prisoners in the Prison Estate, Third Report of Session 2006–07  
<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200607/cmselect/cmwelaf/74/74.pdf>
- Adroddiad Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid 'Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau Cymraeg yn y manau diogel', M Rooney (2007)
- Cwmni Iaith Dewis Iaith o fewn Sector Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru (2008)  
[http://www.iaith.eu/uploads/adroddiad\\_bwrdd\\_cyfiawndercymraeg.pdf](http://www.iaith.eu/uploads/adroddiad_bwrdd_cyfiawndercymraeg.pdf)
- Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2007-2008  
[http://www.estyn.gov.uk/publications/Estyn%20Annual%20Report%202007\\_2008\(w\).pdf](http://www.estyn.gov.uk/publications/Estyn%20Annual%20Report%202007_2008(w).pdf)
- Adroddiadau cyd adolygiadau o waith Timau Troseddu Ieuencid Cymru  
[http://inspectrates.homeoffice.gov.uk/hmiprobation/inspect\\_reports/yot-inspections.html/](http://inspectrates.homeoffice.gov.uk/hmiprobation/inspect_reports/yot-inspections.html/)